

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o Gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 14eg o Fehefin 2021 am 8.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Berwyn Harding, Sion Alun Roberts, Geraint Morgans, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan Is-Gadeirydd y Cyngor, sef y Cyng Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriad gan y Cyng Robin Hughes.
2. Aethpwyd ymlaen i ail-drafod mater **torri gwair ym mynwent Mallwyd eleni**, a dod i benderfyniad ar sut i symud ymlaen. Atgoffwyd pawb o'r drafodaeth yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 26ain o fis Mai, a'r penderfyniad a wnaethpwyd yr adeg honno. Hefyd cyfeiriwyd at yr holl ohebiaethau a oedd wedi ei derbyn gan y Clerc wedi hyn, ac a oedd wedi eu pasio ymlaen i'r Cynghrowyr i gyd ymlaenllaw.
Mynegwyd barn glir fod rhaid mynd ymlaen i dorri y fynwent – roedd hyn wedi ei benderfynnu ar y 26ain o Fai, ac nid oedd unrhywbeth wedi newid. Roedd cyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned i gadw y fynwent yn daclus, ac adroddwyd fod yna deuluoedd yn byw yn lleol gydag anwyliaid wedi ei claddu yno, ac roedd gan y Cyngor Cymuned gyfrifoldeb i ddangos parch. Gwelwyd y dylid ystyried hen feddi yr un mor bwysig a beddi mwy diweddar. Mynwent y plwy oedd hon, nid safle i geisio cadw bioamrywiaeth. Os oedd blodau yno, yna y rheswm am hyn oedd fod y fynwent yn cael eu thorri yn rheolaidd bob blwyddyn.
Cafwyd cynnig gan y Cyng Catrin Jones y dylid torri tri chwarter ohoni y tro hwn, a gadael rhannau lle mae blodau nes iddynt orffen eu cylchdro. Ni chafwyd eilydd I hyn.
Atgoffwyd pawb fod y mater yma wedi ei basio y tro diwethaf o fwyafrif o 7 i 1, ac roedd rhaid cadw at hyn. Ar gynnig ffurfiol gan Cyng Geraint Morgans a'i eilio gan Idris Jones, penderfynwyd mynd ymlaen i dorri y fynwent mor fuan a phosib. Gwelwyd y gellid peidio torri yn union i'r cloddiau, ac y byddai hyn yn gyfaddawd rhesymol.
Aethpwyd ymalen I fynegi siom difrifol am gynnwys e-bost y Cyng Arfon Hughes dyddiedig 6ed o Fehefin am 11.36am. Mynegwyd teimladau cryf gan y Cynghorwyr fod y cynnwys yn bersonol i'r Clerc, y gellid dehongli y cynnwys fel bwlio, ac roedd hyn yn gwbwl annerbyniol. Roedd Arfon wedi cysylltu gyda Tegid heb ymgynghori gyda'r Cadeirydd na'r Clerc, ac wedi gweithredu ar ei liwt ei hun, a mynd yn erbyn penderfyniad y Cyngor. Dylai pawb o'r cynghorwyr barchu penderfyniadau y Cyngor, a dilyn rheolau cydnabyddedig. Ni ddylid codi materion gyda'r Clerc rhwng cyfarfodydd. Pwysleisiwyd mai gweithredu yn dilyn penderfyniadau y Cyngor fel corff yn dilyn cyfarfodydd oedd dyletswydd y Clerc, a dywedwyd yn glir ei fod yn gwneud hynny yn ddiwyd a chydwybodol.
Pwysleisiwyd unwaith eto fod rhaid i bob dim o waith y Cyngor fynd drwy y Clerc.
Mynegwyd barn gryf ein bod wedi cyrraedd pwynt yn Cyngor Cymuned Mawddwy lle roedd rhaid gwneud rhywbeth am y mater yma. Nodwyd hefyd fod sefyllfa fel hyn wedi digwydd o'r blaen. Roedd yn ymddangos nad oedd dim yn gwella, ac roedd rhyw fater neu gilydd yn codi bron ymhob cyfarfod, ac roedd rhaid dod a hyn i ben. Dywedwyd mai digon oedd digon. Cyfeiriwyd at lythyr y Cyng. Catrin Jones dros ddwy flynedd yn ol oedd yn codi ymwybyddiaeth am sefyllfa y Cyngor, ac roedd yn ymddangos nad oedd dim wedi gwella.
Mynegwyd barn fod y Clerc yn cael ei boenydio, a oedd yn anorfod yn arwain at straen. Dylid fod wedi cael ymddiheuriad. Gofynnwyd y cwestiwn ..a oedd y

Cyng Arfon Hughes yn ceisio disodli y Clerc? Ac a oedd yn ceisio creu cynnwrf yn fwiadol drwy godi materion o hyd? Roedd yr e-bost diweddaraf yma yn gas, mewn un ystyr yn ymosodol.

Ar gynnig ffurfiol gan Cyng. Geraint Morgans a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr eraill penderfynwyd y dylid mynd a'r mater ymhellach. Addawodd y Cyng Hedd Pugh gymryd gofal o'r mater yma, a chysylltu gyda Cadeirydd y Cyngor Berwyn Hughes yn y lle cyntaf l'w hysbysu o'r penderfyniad, ac wedyn canfod sut l ddelio gyda'r mater.

Dychwelwyd i'r mater dan sylw, a phenderfynwyd y dylid gwneud asesiad risc cyn cychwyn ar y gwaith. Awgrymwyd cael person o'r tu allan i wneud hyn, ac os nad oedd yn bosib o fewn y 7 diwrnod nesaf, yna dylem wneud asesiad risc ein hunain. Cytunodd Cyng Hedd Pugh a Catrin Jones gynorthwyo l wneud yr asesiad risc, ac yna ei ddosbarthu l bawb. Pwysleisiwyd fod yna risc amlwg bellach o weld ymwelwyr yn y fynwent yn baglu ac yn anafu. Roedd rhaid ystyried hyn ar frys. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Tegid y contractor, ac addawodd Cyng Hedd Pugh a Geraint Morgans i fynd efo Tegid i'r fynwent pan y bydd yno yn torri. Diolchwyd yn fawr iawn iddynt.

Rhodddwyd ystyriaeth l'r Adroddiad Bioamrywiaeth a gytunwyd gan y Cyngor ac a oedd ar y wefan. Ychwanegwyd un newid, sef fod claddedigaethau yn digwydd yn Llanymawddwy yn ogystal a Dinas Mawddwy. Gyda'r newid yna, cytunwyd ar y cynnwys ar gynnig Cyng Sion Alun Roberts a'l eilio gan Cyng Catrin Jones gyda chefnogaeth pawb yn bresennol.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Polisi Amgylcheddol, a chytunwyd ar y cynnwys ar gynnig Cyng Geraint Morgans a'l eilio gan Cyng John P Jones gyda chefnogaeth pawb yn bresennol.

Mynegwyd hefyd pa mor ddifrifol o ansensitif oedd gweld Andrea Smith yn defnyddio y gair 'ecoside' yn ei gohebiaeth gyda'r Clerc, o gofio y tristwch mawr o golli y diweddar Iwan Foulkes.

Cyfeiriwyd at e-bost gan Scott Roe, ecolegydd, a oedd wedi cael cais i wneud arolwg ecolegol o'r fynwent, ac yn gofyn am statws y fynwent o ran cael caniatad. Ar gynnig Geraint Morgans a'l eilio gan Sion Alun Roberts, gwelwyd y dylid ateb drwy ddweud ein bod fis yn hwyrach yn torri y fynwent eleni beth bynnag, bod yna deimladau cryf yn lleol y dylai gael ei thorri, a bod cwestiwn yn codi a oedd angen arolwg o'r fath o dan yr amgylchiadau.

Nodwyd y

3. Unrhyw fater arall.

- a) Nodwyd fod engraifft o'r lori biniau yn blocio stryd yn Minllyn adeg roedd y plant yn mynd l'r ysgol, gyda tua 4 o geir yn aros. Roedd angen eu hatgoffa o'r angen l osgoi yr amser yma.
- b) Nodwyd dau gais cynllunio oedd wedi eu dosbarthu. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad l gynllun Creu Coetir yn Nantynodyn, a gwelwyd nad oedd y cais yn ymwneud a Ratgoed Hall Aberllefenni yn berthnasol l ni ym Mawddwy.
- c) Adroddwyd fod Jane Davies wedi cyhoeddi ei bod yn rhoi'r gorau l lanhau y toiledau yn y Dinas. Penderfynwyd y dylem ddanfôn llythyr o ddiolch am gwasanaeth dros y blynyddoedd.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.30yh.

